COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS BWYLLGOR HAWLIAU TRAMWY A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD LLUN, 11 AWST 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | |
|---|---|
| A R Berrow | RM Granville |

Presennol – O Bell

| | |
|---|---|
| J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S J Griffiths

Datganiadau o Ddiddordeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrew Mason | Rheolwr Hawliau Tramwy |
| Timothy Price-Phillips | Swyddog Hawliau Tramwy a Mynediad i Dir |
| Leslie Meachin | Cymdeithas y Crwydriaid |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro – Pwyllgorau |

**8. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd S Griffiths a Helen Donnan |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Awst 2025 |

**9. Datganiadau o fuddiant**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Awst 2025 |

**10. Cymeradwyaeth Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Y caiff cofnodion y cyfarfod ar 11/04/2025 eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Awst 2025 |

**11. Dargyfeirio Rhannol Arfaethedig o Lwybr Troed 55 Llangrallo Uchaf**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Hawliau Tramwy, oedd gofyn am awdurdodiad i wneud Gorchymyn yn unol ag Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar “Dir rhwng Heol Laethog a Heol y Cyw Pen-y-bont ar Ogwr”.<br><br>Er mwyn hwyluso adeiladu parc Solar a datblygiad ategol fel y caniateir gan ganiatâd cynllunio DNS/3279521 yn Nhŷ’n y Waun, Heol y Cyw, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6HL, bydd angen dargyfeirio rhan o Lwybr Troed 55 Llangrallo Uchaf. Rhoddwyd rhagor o wybodaeth yn yr atodiadau oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD: Rhoi awdurdodiad i’r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol i wneud y Gorchymyn angenrheidiol i ddargyfeirio Llwybr Troed 55 Llangrallo Uchaf yn rhannol, i’r llwybr a ddangosir yn Atodiad B i’r adroddiad, ac i gadarnhau’r Gorchymyn ar yr amod na chyflwynir unrhyw wrthwynebiad na sylwadau o fewn y cyfnod penodedig, neu os caiff unrhyw rai a gyflwynwyd felly eu tynnu’n ôl. |

| | |
|---|---|
| | Bod Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yn cael awdurdod i anfon y Gorchymyn ymlaen at Lywodraeth Cymru i'w benderfynu, os na chafodd unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd eu tynnu'n ôl.<br><br>Bod y Gorchymyn (Gorchmynion) yn eithrio unrhyw ran o'r dargyfeiriad, sy'n defnyddio priffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan fod hawliau cyhoeddus yn bodoli dros y rhain eisoes.<br><br>Argymhellodd y Pwyllgor ymhellach i'r Rheolwr Hawliau Tramwy y dylid gwneud trefniadau i sythu cornel ddall a nodwyd fel rhan o'r Ymweliad Safle. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Awst 2025 |

**12. Diddymu Rhannol a Dargyfeirio Rhannol Arfaethedig Llwybr Troed 58 Maesteg**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Hawliau Tramwy, oedd gofyn am awdurdodiad i wneud Gorchymyn yn unol ag Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar Dir i'r dwyrain o Siderise Insulation Ltd, Ystâd Ddiwydiannol yr Efail, Maesteg CF34 0AH.<br><br>Er mwyn hwyluso codi adeilad newydd ar gyfer gofod hyfforddiant a swyddfeydd gerllaw gyda mynediad, lle parcio, gwaith tirlunio a seilwaith draenio yn unol â chaniatâd cynllunio P/22/71/FUL, bydd angen dargyfeirio rhan o Lwybr Troed 58, Maesteg, a bydd angen dileu rhan arall o'r un llwybr troed. Rhoddwyd rhagor o wybodaeth yn yr atodiadau oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD: Rhoi awdurdod i Brif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol i wneud y Gorchymyn angenrheidiol i ddileu Llwybr Troed 58 Maesteg yn rhannol a'i ddargyfeirio'n rhannol, i'r llwybr a ddangoswyd yn Atodiad B i'r adroddiad, a chadarnhau'r Gorchymyn ar yr amod na châi unrhyw wrthwynebiadau na sylwadau eu gwneud o fewn y cyfnod penodedig, neu os tynnid unrhyw rai a wnaed felly yn ôl.<br><br>Awdurdodi Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol i anfon y Gorchymyn ymlaen at Lywodraeth Cymru i'w benderfynu, os na châi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd eu tynnu'n ôl. |

| | |
|---|---|
| | Bod y Gorchymyn (Gorchmynion) yn eithrio unrhyw ran o'r dargyfeiriad, sy'n defnyddio priffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan fod hawliau cyhoeddus yn bodoli dros y rhain eisoes<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor ymhellach am wneud cais i berchennog y tir sicrhau glendid y brifford. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Awst 2025 |

## 13. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Awst 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:16